TASG DARLLEN GEIRIAU AM FUNUD

Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Sgorio

Gwybodaeth am y Prawf

Beth sy'n cael ei fesur	Mae'r prawf hwn yn asesu effeithlonrwydd darllen geiriau mewn fformat darllen yn uchel am funud. Dewiswyd y geiriau'n fwriadol ac maent yn rhai sy'n weddol gyfarwydd (o leiaf fel geiriau llafar). Maent wedi eu gosod mewn trefn yn ôl anhawster darllen gan ddechrau gyda geiriau hawdd sy'n cynnwys un neu ddau llythyren ac yna'n mynd ymlaen i eiriau hyd at dri sillaf. Dylai hyd yn oed plant sydd mewn Dosbarth Derbyn allu darllen ychydig o'r geiriau, ac mae cyfraddau cywirdeb cyffredinol yn uchel iawn fel rheol o Flwyddyn 1 ymlaen. Mae'r prawf hwn wedi ei gynllunio fel nad yw'n achosi llawer o anhawster i ddadgodio, ac mae'n amcangyfrif rhuglder dadgodio plant.	
Ystod Oedran	Mae'r prawf hwn yn addas i blant mewn Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6.	
Sgorio (Cywirdeb)	Caiff y prif sgôr am ddarllen yn uchel yn effeithlon ei gyfrifo trwy dynnu nifer yr ymatebion anghywir (yn cynnwys geiriau sydd wedi eu sgipio) o gyfanswm yr ymatebion y rhoddwyd cynnig arnynt. Mae'r prawf hwn yn cynhyrchu lefelau uchel iawn o gywirdeb; felly nid yw camgymeriadau fel rheol yn cael eu cyfrif ar wahân.	
Normau	Bydd normau Cymraeg ar gael yn fuan.	
Deunyddiau gweinyddu	Dyfais recordio Stopwats Taflen Sgorio Darllen Geiriau am Funud Cerdyn Darllen Geiriau am Funud	

Trefn y prawf

1. Cyflwyno'r Prawf

Mae'r gweinyddwr yn dweud:

"Rydyn ni'n mynd i chwarae gêm efo geiriau. Dwi'n mynd i ddangos rhestr o eiriau i ti a dwi isio i ti ddarllen y geiriau mor gyflym â phosib heb wneud camgymeriadau. Dwi isio i ti eu darllen gan ddefnyddio dy fys i dy helpu i ddilyn y geiriau yn y drefn gywir *[gweinyddwr yn dangos sut i bwyntio bys i ddilyn geiriau yn fertigol ac i lawr pob colofn]*. Os wyt ti'n gwneud camgymeriad, gallu di gywiro dy hun a dal ati i ddarllen mor gyflym â phosib. Pan wyt ti'n cyrraedd gair anodd, rho gynnig arni, ond os yw'n rhy anodd gallu di symud ymlaen i'r gair nesaf. Wyt ti'n barod? Paid ag anghofio pwyntio at y geiriau wrth eu darllen."

© Caravolas, M., Mikulajová, M., Defior, S., & Seidlová Málková, G. (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl. Nid i'w atgynhyrchu, copïo, lledaenu na chyhoeddi heb ganiatâd yr awduron.

Gwnewch yn siŵr bod y plentyn yn deall bod angen darllen y geiriau'n fertigol i lawr pob colofn (nid yn llorweddol ar draws y rhesi).
Os yw'r plentyn yn cael trafferth gyda gair, dylech ei annog i ddal ati.

2. Cynnal y Prawf

- Dylai'r gweinyddwr ddarllen cyfarwyddiadau'r prawf yn uchel o'r **Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Sgorio** (gweler sgript y Gweinyddwr yn y cyflwyniad uchod).
- Dylai'r gweinyddwr roi **Cerdyn Darllen Geiriau Am Funud** i'r plentyn.
- Bydd y gweinyddwr yn dechrau'r stopwatsh cyn gynted ag y bydd y plentyn yn ynganu'r gair cyntaf.
- Bydd y gweinyddwr yn stopio'r prawf ar ôl 60 eiliad.
- Os yw'r plentyn yn cael trafferth gyda gair, dylai'r gweinyddwr ei annog i ddal ati.
- Bydd y gweinyddwr yn tynnu llinell ar ôl y gair olaf y mae'r plentyn yn rhoi cynnig arni.

3. Sgorio

- Dylai'r gweinyddwr ddefnyddio'r **Taflen Sgorio Darllen Geiriau Am Funud** i sgorio'r eitemau.
- Yn y golofn 'Ymateb' ar gyfer pob eitem dylai'r gweinyddwr:
  - nodi ✓ wrth ymyl pob gair sydd wedi eu dadgodio **yn gywir**
  - nodi **X** wrth ymyl geiriau sydd wedi eu **camddarllen**
  - nodi **SC** wrth ymyl geiriau lle mae'r plentyn yn **hunan-gywiro**
  - **gadewch yn wag** os yw'r plentyn yn **sgipio** gair.
- Rhowch un pwynt am bob gair sydd wedi'i ddarllen yn gywir.

© Caravolas et al. (2018) *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl. Nid i'w atgynhyrchu, copïo, lledaenu na chyhoeddi heb ganiatâd yr awduron.
.